


Cyfrinach y Brenin

The King's Secret



Beth ydych chi'n gallu ei weld ar y clawr?

What can you see on the cover?

Pwy ydy awduron y llyfr?

Who are the authors of this book?

Pwy sy wedi gwneud y lluniau?

Who is the illustrator?

Pwy sy wedi cyhoeddi'r llyfr?


Who has published the book?

Ble cafodd y llyfr hwn ei gyhoeddi?

Where was this book published?

Dyma March ap Meirchion.
Mae o'n byw mewn castell mawr.

This is March ap Meirchion.
He lives in a big castle.



Dyma March ap Meirchion.
Mae o'n byw mewn castell mawr.

Geirfa / Vocabulary

dyma – this is

castell (g) – castle

ap – the son of

mawr – big

byw – to live



Disgrifiwch y castell.

Describe the castle.

Sawl tŵr sy ar ben y castell?

How many towers are on the castle?

Beth ydych chi'n gallu eu gweld tu ôl i'r castell?

What can you see behind the castle?

Pa anifeiliaid sy yn y cae?

What animals are in the field?

Beth ydy enw'r brenin?

What is the king's name?

(March = horse or stallion. The king had horse's ears).

Ble mae'r brenin yn byw?

Where does the king live?

Ond dydy March ddim yn hapus.

Ssshhh! Mae gen i gyfrinach!

Peidiwch dweud wrth neb.

But March isn't happy.

Ssshhh! I have a secret!

Don't tell anyone.



Geirfa / Vocabulary

hapus – happy
dweud – to tell

cyfrinach (b) – secret
neb – anyone

peidiwch – don't



Sut mae March ap Meirchion yn teimlo?

How is March ap Meirchion feeling?

Pam mae'r Brenin March yn teimlo fel hyn?

Why does King March feel like this?

Beth sy gan y brenin yn ei law?

What does the king have in his hand?

Pam mae'r brenin yn cario cleddyf?


Why does the king carry a sword?

Disgrifiwch y gwahaniaeth rhwng y ddau ŷch.

Describe the difference between the two oxen.

Dyma Ifan.
Mae o'n mynd i'r castell heddiw.

This is Ifan.
He is going to the castle today.



Geirfa / Vocabulary

mynd – to go

heddiw – today



Ble mae Ifan yn mynd?

Where is Ifan going?

Pam mae Ifan yn mynd i'r castell?

Why is Ifan going to the castle?

Beth sy gan Ifan yn ei ddwylo?

What does Ifan have in his hand?

Beth ydy gwaith Ifan?

What is Ifan's work?

Pwy ydych chi'n credu sy'n byw yn y bwthyn?


Who do you think lives in the cottage?

Ond dydy Ifan ddim yn hapus chwaith.
Mae o'n gwybod cyfrinach y brenin.

Ssshhh! Mae gen i gyfrinach!
Peidiwch dweud wrth neb.

But Ifan isn't happy either.
He knows the king's secret.

Ssshhh! I have a secret!
Don't tell anyone.



Geirfa / Vocabulary

chwaith – either

gwybod – to know

brenin (g) – king



Sut mae Ifan yn teimlo?
How is Ifan feeling?

Beth ydy cyfrinach Ifan?
What is Ifan's secret?

Ydych chi'n anhapus weithiau? Pryd a pham?
Are you unhappy sometimes? When and why?


Beth sy'n gwneud chi'n hapus?
What makes you happy?

Ar y ffordd i'r castell mae Ifan
yn eistedd wrth yr afon.

Mae gen i gyfrinach!
Peidiwch dweud wrth neb,
er parch.

On the way to the castle, Ifan
sits by the river.

I have a secret!
Don't tell anyone, out of respect.



Geirfa / Vocabulary

ar y ffordd – on the way
er parch – out of respect

eistedd – to sit

afon (b) – river



Ble mae Ifan yn eistedd ar ei ffordd i'r castell?
Where does Ifan sit on his way to the castle?

Pwy yw'r ffrind bach ddaeth i weld Ifan pan oedd yn eistedd
ger yr afon?
Who was the friend who came to see Ifan when he was sitting
by the river?

Beth ydy lliw y grib?
What is the colour of the comb?

Beth sy'n mynd trwy feddwl Ifan?
What is going through Ifan's mind?

Mae'n gyfrinach am y brenin.
Ssshhh! Mae ganddo glustiau march.

Mae'r brwyn yn gwrando'n astud
ar gyfrinach Ifan.
Brwyn hud ydyn nhw.

It's a secret about the king.
Ssshhh! He has horse's ears.

The reeds listen attentively to
Ifan's secret.
They are magic reeds.



Geirfa / Vocabulary

clust (b) / iau – ear(s)

gwrando'n astud – listen attentively

brwynen (b) / brwyn – reed(s)

hud – magic



Beth sy'n tyfu ar lan yr afon?
What is growing by the river?

Pa fath o frwyn ydy'r rhain?
What kind of reeds are they?

Pwy sy'n gwrando ar Ifan?
Who is listening to Ifan?

Beth fydd yn digwydd nesa?
What will happen next?

O'r diwedd, mae Ifan yn cyrraedd y castell.

Mae March yn hapus iawn heddiw.

Dw i'n mynd i gael parti mawr.

At last, Ifan arrives at the castle.

March is very happy today.

I'm going to have a big party.



Geirfa / Vocabulary

o'r diwedd – at last

parti (g) – party

cyrraedd – to arrive

mawr – big

cael – to have



Sut mae'r brenin yn teimlo pan mae Ifan yn cyrraedd y castell?
How does the king feel when Ifan arrives at the castle?

Disgrifiwch ffrindiau March ap Meirchion.
Describe March ap Meirchion's friends.

Pam mae'r brenin yn mynd i gael parti mawr?
Why is the king going to have a big party?

Ydych chi wedi bod mewn parti?
Have you been to a party?

Beth ydych chi'n hoffi ei wneud mewn parti?
What do you like doing in a party?

Mae pawb yn brysur yn y castell.
Mae pawb yn edrych ymlaen
at y parti.

Everyone is busy in the castle.
Everyone is looking forward
to the party.



Geirfa / Vocabulary

pawb – everyone

prysur – busy

edrych ymlaen – to look forward



Beth sy'n digwydd yn y llun hwn?
What's happening in this picture?

Beth mae'r cogydd / morwyn / gwas yn ei wneud?
What is the cook / maid / servant doing?

Beth sy'n hongian ar y wal?
What is hanging on the wall?


Beth sy ar y bwrdd?
What is on the table?

Beth sy yn y fasedd?
What is in the basket?

Pa anifeiliaid sy yn y llun?
What animals are in the picture?

Dyma Rhys.
Mae o'n mynd i'r parti.

This is Rhys.
He is going to the party.



Pwy arall sy'n mynd i'r parti?
Who else is going to the party?

Pa anifail sy ar bwys yr afon?
What animal is by the river?

Pa aderyn sy ar bwys yr afon?
What bird is by the river?

Beth sy'n hedfan uwchben y dŵr yn yr afon?
What is flying above the water in the river?

Beth fydd Rhys yn gwneud yn y parti?
What will Rhys do in the party?

Ar y ffordd i'r parti, mae Rhys yn cerdded wrth yr afon. Mae o'n cael syniad.

Mmm, beth am gael pib newydd?

On the way to the party, Rhys is walking by the river. He has an idea.

Hmm, what about having a new pipe?



Geirfa / Vocabulary

ffordd (b) – way

pib (b) – pipe

cerdded – to walk

newydd – new

syniad (g) – idea



Beth oedd syniad Rhys?

What was Rhys's idea?

Pwy sy'n gwyllo Rhys yn y llun?

Who is watching Rhys in the picture?

Sut mae Rhys yn mynd i gael pib newydd?


How is Rhys going to get a new pipe?

Beth ydych chi'n credu sy'n mynd i ddigwydd nawr?

What do you think is going to happen now?

Mae o'n cyrraedd y castell.
Mae pawb yn hapus.
Mae pawb yn mwynhau.

He arrives at the castle.
Everyone is happy.
Everyone is enjoying.



Geirfa / Vocabulary

mwynhau – to enjoy



Sawl balw'n sy yn y llun?
How many balloons are in the picture?

Pa fath o fwyd sy yn y parti?
What kind of food is in the party?

Sut mae pawb yn teimlo yn y parti?
How does everyone feel at the party?

Sut ydyn ni'n gwybod bod hwn yn barti da?
How do we know that this is a good party?

Sut ydych chi'n teimlo pan rydych chi'n mynd i barti?
How do you feel when you go to a party?

Mae Rhys yn dechrau chwarae.

Mae gen i gyfrinach!

Peidiwch dweud wrth neb, er parch.

Mae'n gyfrinach am y brenin.

Ssshhh! Mae ganddo glustiau march.

Dydy'r brenin ddim yn edrych yn hapus rŵan.

Rhys begins to play.


I have a secret!

Don't tell anyone, out of respect.

It's a secret about the king.

Ssshhh! He has horse's ears.

The king does not look happy now.



Geirfa / Vocabulary

dechrau – to begin

chwarae – to play

rŵan – now



Pa offeryn mae Rhys yn chwarae?

What instrument is Rhys playing?

Beth sy'n digwydd pan mae Rhys yn dechrau chwarae?

What happens when Rhys begins to play?

Sut oedd y brenin yn teimlo rŵan?

How did the king feel now?

Sut mae pawb arall yn teimlo?

How does everyone else feel?

Mae'r brenin yn codi'n araf
ar ei draed.
Mae o'n tynnu ei goron i ffwrdd.

The king gets up slowly.
He takes off his crown.



Geirfa / Vocabulary

codi – to arise
tynnu – to take

araf – slow
coron (b) – crown

troed (b) / traed – foot / feet
i ffwrdd – off



Pam mae'r brenin yn tynnu ei goron i ffwrdd?
Why does the king take off his crown?

Sut mae Rhys yn teimlo rwan?
How does Rhys feel now?

Sut ydych chi'n meddwl mae'r Brenin March yn teimlo?
How do you think King March feels?

Does neb yn dweud gair.
Ac yna mae March yn dechrau
chwerthin.
Mae o'n chwerthin ac yn chwerthin.
Mae pawb yn gwybod ei gyfrinach
rŵan.

Hip-hip-hwrê i'r brenin.
Hwrê i'r Brenin March.

No-one says a word.
And then March starts laughing.
He laughs and he laughs.
Everyone knows his secret now.

Hurrah! Hurrah to the king.
Hurrah to King March.



Geirfa / Vocabulary

gair (g) – word

hip-hip-hwrê – hip hip hurrah!

chwerthin – to laugh

gwybod – to know



Pam mae March yn hapus bod pawb yn gwybod ei gyfrinach?
Why is March happy that everyone knows his secret?

Ydy clustiau'r brenin yn ei wneud yn berson gwahanol?
Do the king's ears make him a different person?

Ydy'r ffaith bod rhywun yn wahanol yn ei wneud yn llai
o ffrind i chi?

Does the fact that somebody is different make them less of
a friend to you?

Gweithgareddau / Activities

- trefnu ymweliad â chastell lleol / **arrange a visit to a local castle**
- ymchwilio i hanes cestyll Cymru, e.e. Harlech, Caernarfon, Caerffili, Penfro a llunio poster neu greu prosiect o'r wybodaeth
research the history of Welsh castles, e.g. Harlech, Caernarvon, Caerphilly, Pembroke and design a poster or create a project with the information
- llunio model 3D o gastell / **create a 3D model of a castle**
- gêm odli – llunio cardiau gyda gair arnynt, eu lamineiddio a chwarae gêm paru neu 'snap'
rhyming game – create cards with words on them, laminate and play a pairs or 'snap' game
geiriau enghreifftiol / **examples of words:**

hud + drud	brwyn + llwyn	coron+ moron	ÿch + drych
mawr + llawr	moch + coch	afon + mafon	march + parch
ci + ni	Rhys + pys	jeli + gwely	clust + ust
- trafodaeth am gartrefi'r disgyblion – mathau o dai, e.e. tŷ unigol, tŷ pâr, byngalo, ffermdy a.y.b.
a discussion about pupils' homes – types of houses, e.g. detached house, semi-detached, bungalow, farmhouse etc.
- creu modelau 3D neu 'collage' o gartrefi plant y dosbarth
create 3D models or a 'collage' of class pupils' homes
- defnyddio 'Google maps' a/neu atlas i lunio rhestr o enwau afonydd lleol
use 'Google maps' and/or an atlas to list the names of local rivers
- llunio gwahoddiad i barti gan ddefnyddio rhaglen 'Word' a 'Clipart' neu 'Publisher'
create a party invitation using 'Word' and 'Clipart' or 'Publisher'
- llunio bwydlen ar gyfer y parti delfrydol / **design a menu for your ideal party**
- addurno bisgedi ar gyfer parti / **decorate biscuits for a party**
- gwneud jeli ar gyfer parti (cyflwyno'r elfen wyddonol o hylif yn troi'n solid)
make jelly for the party (introducing the scientific concept of liquid turning into solid)
- gwneud cebabs ffrwythau a 'smoothies' i hybu bwyta'n iach
make fruit kebabs and smoothies to promote healthy eating
- cynnal parti dosbarth gyda'r bwyd uchod / **hold a class party with the above food**

- cyfansoddi cân addas i'r parti / **compose a suitable song for the party**
- darllen llyfrau ffeithiol am fywyd gwyllt ar lan yr afon
read non-fiction books about river wildlife
- llunio arddangosfa o offerynnau chwyth yn y dosbarth
create an exhibition of wind instruments in the class
- cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer gwahanol olygfeydd yn y stori gan ddefnyddio'r offerynnau chwyth; perfformio'r darn, ei recordio ar dâp a'i werthuso
compose music for different scenes from the story using wind instruments; perform the music, record it on tape and evaluate it
- chwarae rôl ac ail-greu'r stori gan wisgo dillad addas a defnyddio cymhorthion os y mynnwch
role-play and re-create the story using appropriate dressing-up clothes and props if desired
- chwarae gêm sibrydion / **play 'Chinese whispers'**